Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Gyfun Emlyn**
**Castellnewydd Emlyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA38 9LN**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Robert Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Farrukh Kahn | Arolygydd Tîm |
| Kevin Adams | Arolygydd Tîm |
| Sue Halliwell | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Gyfun Emlyn wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Gyfun Emlyn oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig ynddynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwella sy'n cael ei rannu gyda rhanddeiliaid allweddol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad craidd ym Mai 2012, o dan arweiniad pennaeth newydd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwella sy'n cael ei rannu gyda'r holl randdeiliaid allweddol. Yn benodol, rhoddwyd pwyslais cadarn ar godi uchelgais ar draws yr ysgol drwy osod targedau heriol i wella safonau. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi sefydlu blaenoriaethau clir y mae'r staff yn eu deall yn dda ac sy'n cael eu hategu gan gynlluniau gweithredu manwl. Mae uwch arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau yn glir drwy ystod o bolisïau perthnasol, dogfennau a chyfarfodydd wedi'u trefnu'n dda.

Yn sgil penodi pennaeth cynorthwyol newydd ym Medi 2013, mae rolau aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi'u hadolygu a'u diffinio'n gliriach. O ganlyniad, mae trefniadau rheoli llinell wedi'u cryfhau, gan arwain at fwy o atebolrwydd i staff ar bob lefel. Erbyn hyn, cynhelir cyfarfodydd ffurfiol rhwng aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth a phenaethiaid pynciau craidd bob wythnos. Cynhelir cyfarfodydd tebyg gyda phenaethiaid pynciau sylfaen bob pythefnos. Ceir ffocws clir yn y cyfarfodydd hyn ar adolygu data perfformiad, sydd bellach yn cael ei gasglu bob mis ar gyfer pynciau craidd, a phob hanner tymor ar gyfer pynciau eraill. Mae hyn yn helpu nodi disgyblion sy'n tanberfformio ac i benderfynu ar raglenni ymyrryd priodol ar eu cyfer. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer staff wedi'u cryfhau drwy sicrhau bod amcanion yn mynd i'r afael â blaenoriaethau ysgol gyfan ac yn cynnwys targedau y gellir eu mesur sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnydd grwpiau disgyblion penodol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith lawn y trefniadau hyn ym mhob un o feysydd yr ysgol.

Ers yr arolygiad craidd, mae dull y corff llywodraethol o weithredu wedi newid gryn dipyn. Mae eu rolau wedi'u diwygio'n llwyddiannus, a bellach mae cydweddiad gwell â medrau'r llywodraethwyr. Yn ogystal, mae gweithrediad is-bwyllgorau, fel y pwyllgor cyllid, pwyllgor y cwricwlwm a'r pwyllgor staffio, yn fwy strwythuredig ac effeithiol. At ei gilydd, mae'r corff llywodraethol yn fwy gwybodus am waith yr ysgol ac mae'n herio'r ysgol yn effeithiol erbyn hyn.

O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr wedi darparu cyfeiriad strategol cliriach i'r ysgol. Erbyn hyn, mae'r staff yn gweithio mewn dull

mwy cydlynus i wella ansawdd y ddarpariaeth ac i godi safonau ar gyfer pob un o'r disgyblion.

**Argymhelliad 2: Codi safonau a gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, gyda ffocws ar wella medrau llythrennedd disgyblion ar bob lefel gallu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad ym mhob un o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 bron wedi gwella'n gadarn. Yn 2013, mae perfformiad ar drothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg, a'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar drothwy lefel 2 ac ym mhynciau craidd mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg. Ym mhynciau craidd Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf, mae perfformiad islaw cyfartaledd y teulu ac mae'n gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn y dangosyddion hyn, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad a chyfartaledd y teulu wedi lleihau dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o gyfnodau allweddol blaenorol o ran llawer o'r prif ddangosyddion. Mae cynnydd o gyfnod allweddol 2 o ran y dangosydd pwnc craidd yn sylweddol well na'r disgwyl.

Yn 2013, roedd y gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn yn llai na'r gwahaniaeth cenedlaethol ar gyfer trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, trothwy lefel 2 a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Yn ogystal, dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad bechgyn mewn Saesneg wedi gwella gryn dipyn. Dros yr un cyfnod, fodd bynnag, mae perfformiad merched wedi gwanhau ac mae'n is na pherfformiad ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad wedi gwella'n gadarn ym mhob un o'r prif ddangosyddion ers adeg yr arolygiad diwethaf. Yn 2013, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd yn uwch na disgwyliadau wedi'u modelu, ac mae'n gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn y pynciau craidd ar wahân, sef Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, islaw perfformiad ysgolion tebyg, er bod y gwahaniaeth rhwng perfformiad a chyfartaledd y teulu wedi lleihau'n amlwg ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r ysgol yn defnyddio ei system olrhain yn fwy effeithiol i nodi tanberfformio ac i gynorthwyo disgyblion trwy raglenni ymyrraeth i'w helpu i gyflawni safonau uwch. Bu hyn yn arbennig o effeithiol mewn mathemateg. Hefyd, rhoddwyd ffocws cadarn ar draws yr ysgol ar nodi a chynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd gwan, ac mae disgyblion ar raglenni dal i fyny yn gwneud cynnydd gwerthfawr. Fodd bynnag, nid yw dulliau ysgol gyfan i wella medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, fel strategaethau i wella medrau ysgrifennu estynedig, wedi effeithio'n gyson ar ddeiliannau eto.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau a'u dealltwriaeth o egwyddorion a chysyniadau newydd. Mae'r rhan fwyaf o

ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn cymhwyso'u hunain yn dda at dasgau penodol. Gweithiant yn effeithiol mewn parau a grwpiau bach. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau lle nad yw'r addysgu wedi'i gynllunio'n ddigon da nac yn ddigon heriol, fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn colli diddordeb ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau athrawon ac ar farnau pobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn esbonio'u barnau a'u syniadau yn dda gan ddefnyddio iaith briodol. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw'r hyder ac eglurder gan ddisgyblion wrth siarad yn y dosbarth. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol i godi gwybodaeth, dirnad ystyr a dod i gasgliadau. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion fel gwaith disgrifiadol, ysgrifennu adroddiadau ac arfarnu. Defnyddiant eirfa soffistigedig yn eu gwaith ysgrifenedig. I leiafrif o ddisgyblion, fodd bynnag, mae ansawdd eu gwaith ysgrifenedig yn anghyson ar draws pynciau ac mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud gormod o gamgymeriadau sillafu a gramadeg.

**Argymhelliad 3: Sicrhau dilyniant gwell yng nghyflawniadau disgyblion mewn Cymraeg**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd gwerthfawr o ran datblygu ei darpariaeth i helpu disgyblion adeiladu ar eu cyflawniadau blaenorol ac i sicrhau dilyniant gwell mewn medrau Cymraeg.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3 wedi cynyddu'n raddol, ac erbyn hyn mae'n galluogi'r holl ddisgyblion a astudiodd Cymraeg fel iaith gyntaf yn eu hysgolion cynradd i barhau i wneud hynny ym Mlwyddyn 7. Mae rhyw hanner y disgyblion Blwyddyn 8 presennol a dwy ran o dair o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn dilyn y cwrs iaith gyntaf ac yn adeiladu'n briodol ar eu cyflawniadau blaenorol yn yr iaith. Mae hyn yn welliant sylweddol ers adeg yr arolygiad craidd.

Erbyn hyn, gall disgyblion ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ddewis astudio ystod ehangach o bynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd y ddarpariaeth hon yn ymestyn i gyfnod allweddol 3 yn gyflawn y flwyddyn nesaf. Mae'r ysgol yn cydweithio â'i hysgolion uwchradd partner i gynnig ystod ehangach o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 er mwyn sicrhau gwell parhad o gyfnod allweddol 3.

Mae polisi dwyieithog priodol ar waith erbyn hyn. Mae hwn yn amlinellu'n glir sut mae'r ysgol yn bwriadu sicrhau dilyniant ieithyddol priodol ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi datblygu'r defnydd o Gymraeg achlysurol mewn gwersi cyfrwng Saesneg, gan ddarparu cymorth ac adnoddau perthnasol i athrawon. Mae bron pob gwers bellach yn cynnwys defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau perthnasol. Hefyd, mae'r ysgol wedi cynyddu ystod y gweithgareddau allgyrsiol a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o bynciau yn cynllunio'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r gweithgor ethos Cymreig yn parhau i hyrwyddo a datblygu darpariaeth ac arfer, yn yr

ystafell ddosbarth a thu hwnt. Dangosa'r disgyblion, y staff a'r llywodraethwyr agweddau cadarnhaol at y Gymraeg ac ethos dwyieithog yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau addas gyda phob un o'i hysgolion cynradd, gan gynnwys y rheini mewn awdurdodau cyfagos, ac mae'n cael gwybodaeth briodol am gyflawniadau disgyblion mewn Cymraeg er mwyn cynllunio'n effeithiol i fodloni eu hanghenion. Mae sefydlu uned cyfrwng Cymraeg, 'Canolfan Iaith', wedi bod yn effeithiol o ran galluogi'r ysgol i fodloni anghenion iaith hwyrddyfodiaid i'r ysgol.

Yn 2013, mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf ar lefel 5 ac uwch yng nghyfnod allweddol 3, ac ar lefel A*-C yng nghyfnod allweddol 4, yn welliant sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ym mhob achos, fodd bynnag, mae perfformiad islaw perfformiad ysgolion tebyg a chyfartaleddau cenedlaethol o hyd. Hefyd, mae perfformiad ar lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg ail iaith islaw perfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad cyfnod allweddol 3 ar y lefelau uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith yn well na pherfformiad ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yn gyson dda.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynorthwyo adran y Gymraeg i adolygu eu cynlluniau gwaith er mwyn helpu sicrhau bod staff yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau ysgogol i gynorthwyo a herio disgyblion ar draws yr ystod gallu llawn. Mae'r staff wedi cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n cynnwys ymweliadau ag ysgolion eraill i arsylwi a hyrwyddo arfer dda. Mae pob un o'r gweithgareddau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, er mai digon cymedrol hyd yma fu'r effaith ar ddeilliannau yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

**Argymhelliad 4: Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi rhoi ystod o strategaethau priodol ar waith i wella ansawdd yr addysgu a'r asesu. Mae'r rhain wedi cynnwys sesiynau hyfforddi ar gyfer staff, rhannu arfer dda yn yr ysgol ac ymweliadau ag ysgolion eraill i arsylwi arfer orau. Mae'r mentrau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu diwylliant dysgu proffesiynol yn yr ysgol ac maent wedi dechrau sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd yr addysgu.

Ym mhob gwers bron, mae gwybodaeth bynciol, medrau rheoli dosbarth a pherthnasoedd gweithio'r staff gyda'r disgyblion yn dda. Caiff llawer o wersi eu cynllunio'n dda, maent yn dechrau gyda gweithgareddau 'cychwynnol' ac yn cynnwys amrywiaeth addas o weithgareddau dysgu perthnasol ac ysgogol. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn gyffredinol yn fodelau iaith da, maent yn sicrhau bod disgyblion yn deall beth maent yn anelu i'w gyflawni ac yn darparu cymorth defnyddiol i ddisgyblion unigol. Mewn lleiafrif o wersi, mae'r athrawon yn cynllunio'n ofalus i sicrhau bod disgyblion â lefelau gallu gwahanol yn cael eu herio'n addas, maent yn cynnal rhediad dysgu chwim trwy gydol y wers ac yn defnyddio holi medrus i archwilio dealltwriaeth y disgyblion a hyrwyddo dysgu effeithiol.

Er y bu gwelliant yn ansawdd yr addysgu ers yr arolygiad craidd, mae gormod o amrywio o hyd rhwng adrannau ac o fewn adrannau. Mae lleiafrif o wersi yn dal i

gynnwys meysydd pwysig i'w gwella, er enghraifft, amseru gweithgareddau'n amhriodol a chyflymder dysgu amhriodol, gweithgareddau dysgu nad ydynt yn cyfateb yn dda i lefelau gallu pob un o'r disgyblion, techneg holi sy'n rhy arwynebol i fod yn effeithiol a nifer fawr o weithgareddau'n cael eu harwain gan yr athro. Yn y gwersi hyn, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd yn eu dysgu ag y dylent.

Mae gan yr ysgol bolisi marcio ac asesu priodol. Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae cyflwyno templed cyffredin ar gyfer adborth mewn perthynas â phrif dasgau asesu wedi helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o athrawon yn cynnig sylwadau priodol ar yr hyn mae disgyblion wedi'i gyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae gormod o amrywio o hyd yn ansawdd yr adborth ac eglurder arweiniad ar gyfer gwella. Hefyd, mae gormod o amrywio yn ymateb disgyblion i farcio a sylwadau athrawon. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd cyson o god marcio'r ysgol ar gyfer nodi camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg, ac yn yr achos hwn, mae'r disgyblion yn gyffredinol yn ymateb yn dda drwy gywiro eu camgymeriadau.

Yn y rhan fwyaf o bynciau, caiff disgyblion eu cynnwys wrth asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mewn mwyafrif o achosion, mae'r athrawon yn cynllunio ac yn trefnu hyn yn effeithiol ac yn sicrhau bod asesiadau'n seiliedig ar feini prawf llwyddo a ddeellir yn glir; caiff y broses effaith gadarnhaol ar ddysgu a chynnydd y disgyblion. Mewn lleiafrif o sefyllfaoedd, fodd bynnag, mae asesiadau'r disgyblion yn arwynebol a'u sylwadau yn rhy gyffredinol i fod o werth gwirioneddol.

Gosodwyd targedau heriol ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion ym mhob pwnc ac mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gywir o'u targedau a'r safonau y maent yn eu cyflawni ar hyn o bryd. Bob hanner tymor, mae pob un o'r athrawon yn cofnodi gwybodaeth asesu ar system ganolog. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion tuag at eu targedau ac i nodi a mynd i'r afael â thangyflawniad.

**Argymhelliad 5: Gwella trylwyredd a chywirdeb hunanarfarnu i sicrhau bod cynlluniau datblygu yn nodi camau a blaenoriaethau cadarn i wella deilliannau ar gyfer disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio datblygiad i nodi blaenoriaethau er mwyn helpu gwella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn defnyddio ystod gynhwysfawr o dystiolaeth uniongyrchol i gefnogi cynllunio datblygiad. Mae hyn yn cynnwys craffu'n rheolaidd ar lyfrau gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol a nifer gynyddol o arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol o wersi. Mae'r uwch dîm ac arweinwyr canol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y gweithgareddau arfarnu yn drwyadl. Mae gweithgareddau hyfforddi a datblygu buddiol wedi arwain at fwy o gysondeb yn ansawdd arfarniadau.

Mae adroddiadau hunanarfarnu'r ysgol gyfan ac adrannau yn defnyddio ystod o ddata perfformiad yn effeithiol i wneud cymariaethau priodol gydag ysgolion tebyg a

gyda chyrhaeddiad blaenorol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi'r deilliannau'n ofalus ar gyfer dosbarthiadau a grwpiau penodol o ddisgyblion mewn agweddau penodol ar asesiadau ac arholiadau allanol. Mae hyn wedi galluogi'r rhan fwyaf o adrannau i ganolbwyntio ar feysydd penodol i'w gwella, fel ansawdd strategaethau holi ac asesu mewn gwersi.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi mireinio'r prosesau arfarnu i roi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd addysgu. Mae'r broses hon yn helpu'r rhan fwyaf o'r arweinwyr canol i nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer gwella yn yr addysgu. O ganlyniad, mae gweithgareddau hyfforddi a datblygu wedi arwain at fwy o gysondeb yn ansawdd yr addysgu a dealltwriaeth o'r strategaethau addysgu mwyaf effeithiol i sicrhau gwelliannau ar draws adrannau.

Mae rhaglen drwyadl o adolygiadau adrannol sy'n cynnwys arsylwadau, craffu, gwrando ar ddysgwyr, ymgynghori â rhieni ac arfarnu safonau yn arwain at nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer adrannau. Caiff y cynlluniau gweithredu a gynhyrchir gan adrannau yn dilyn adolygiadau eu defnyddio'n dda mewn cynlluniau gwella.

At ei gilydd, mae'r ysgol wedi cryfhau trefniadau cynllunio gwelliant. Mae prosesau hunanarfarnu yn drwyadl o ran arfarnu safonau, yr addysgu ac asesu. Yn sgil y prosesau hyn, gellir nodi union feysydd i'w gwella a thargedu hyfforddiant, datblygiad a chymorth. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn yn rhoi ffocws cystal ar arfarnu cynnydd a medrau disgyblion mewn gwersi. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn mynd ati'n gyson i asesu effaith strategaethau addysgu ar ddeilliannau dysgu.

**Argymhelliad 6: Cryfhau rôl ac atebolrwydd rheolwyr canol, gyda ffocws clir ar godi safonau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cymryd camau addas i gryfhau rôl ac atebolrwydd arweinwyr canol, gyda ffocws clir ar godi safonau.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dilyn dull cyson gydag eitemau agenda cyffredin sy'n canolbwyntio'n fanwl ar gynnydd disgyblion a gwella'r addysgu a'r dysgu. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dechrau helpu arweinwyr canol i herio eu hadrannau'n fwy effeithiol ac i wella eu medrau arweinyddiaeth. Mae'r dull hwn hefyd yn helpu arweinwyr canol i nodi meysydd allweddol i'w gwella yn fwy clir. Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr wedi bod yn rhy araf yn herio ychydig o arweinwyr canol ynglŷn ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu hadrannau.

Mae arweinwyr canol yn parhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r defnydd o ddata i nodi meysydd i'w gwella. Nid yw ychydig iawn o arweinwyr canol yn defnyddio'r dull hwn yn gyson, fodd bynnag.

Mae'r ysgol wedi mireinio ei dull o ddadansoddi data perfformiad trwy ddull mwy cyson o olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn wedi helpu uwch arweinwyr i nodi tanberfformio ar lefel pwnc, dosbarth a disgybl. Mae'r gwaith dadansoddi hwn yn

helpu arweinwyr i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â thanberfformiad.

Ers yr arolygiad craidd, mae trefniadau'r ysgol i arweinwyr canol graffu ar waith disgyblion yn fwy cadarn erbyn hyn. Mae arweinwyr canol yn craffu ar samplau o waith disgyblion yn fisol. Mae'r mwyafrif o sylwadau'r arweinwyr canol yn rhoi cyngor defnyddiol i athrawon pwnc i'w helpu i wella ansawdd adborth ysgrifenedig i ddisgyblion. Mewn lleiafrif o achosion, mae barnau arweinwyr canol yn rhy hael ac nid ydynt yn rhoi dadansoddiad cywir o ansawdd asesu gwaith disgyblion. Mae'r diffyg cysondeb hwn yn golygu bod gormod o amrywio o hyd yn safonau gwaith ysgrifenedig disgyblion rhwng meysydd y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae arweinwyr canol yn dechrau herio hyn yn fwy effeithiol.

Er bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd pellach gyda'r argymhelliad hwn, nid yw'r trylwyredd o ran dal arweinwyr canol ac athrawon yn atebol am gynnydd yn y dysgu wedi'i sefydlu'n llawn eto yng ngwaith yr ysgol.

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion yn llawn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud diwygiadau priodol i'w pholisi diogelu, wedi sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael cliriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol, wedi cyflwyno bathodynnau adnabod ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr ac wedi gosod nifer o arwyddion cyfeirio perthnasol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Argymhelliad 8: Gweithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gweithio'n briodol gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb ac mae wedi cytuno cynllun ad-dalu tair blynedd. Mae'r pennaeth wedi cynhyrchu cynllun cyllideb cynhwysfawr sy'n ystyried niferoedd rhagamcanol y disgyblion dros y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, cynlluniau cwricwlwm a nifer yr athrawon sy'n ofynnol i gyflawni'r cynlluniau hyn. Mae'n mynd i'r afael â datblygiadau yn y cwricwlwm fel rhoi Cymhwyster Bagloriaeth Cymru lefel canolradd ar waith, a chynlluniau'r ysgol i ehangu darpariaeth fel y gall disgyblion ddewis astudio mwy o bynciau sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gweithio o fewn ei chyllideb ac yn unol â'r targed i glirio'r ddyled ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, 2013-2014.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.